OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 699 (Cy.74)

LANDLORD A THENANT

Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ac Estyn) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*9 Mawrth 2004*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 22 o Ddeddf Diwygio Lesddaliad 1967(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ac Estyn) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Mawrth 2004.

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yn unig —

(a) mewn perthynas â thŷ lesddaliad yng Nghymru(**3**);

(b) i achosion lle mae hysbysiad o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lesddaliad (hysbysiad tenant o ddymuniad i gael neu i honni bod ganddo hawl i gaffael y rhydd-ddaliad neu les estynedig) ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Diwygiadau

3. Diwygir Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ac Estyn) 1967(**4**) fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff 2 o Ran 1 o'r Atodlen, ar ôl y geiriau “tenancy and” rhodder “, in a case to which paragraph 2A applies,”;

(b) ar ôl y paragraff hwnnw rhodder—

(**1**) 1967 p.88. Diwygiwyd adran 22(2) gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol) 1974, O.S.1974/1896.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(2) o Ddeddf Diwygio Lesddaliad 1967 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 2(2) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) *Gweler* adran 2 o Ddeddf Diwygio Lesddaliad 1967 p.88 er mwyn cael dehongliad o "house".

(**4**) O.S. 1967/1879, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.